**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## NEWID ARFAETHEDIG I'R RHEOLAU SEFYDLOG

**Adroddiad gan Ian Miller,**
**Clerc i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** I gynnig newid i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â dyddiad cyfarfod busnes yr hydref er mwyn cymhwyso anghenion y broses Cynllunio Lleihau Risg (RRP)

### Cefndir

**2.** Mae Rheol Sefydlog 4(2) o Reolau Sefydlog yr Awdurdod Tân ac Achub yn nodi y "cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod ym Mehefin,..., a Medi, Rhagfyr a Mawrth, yn y drefn honno. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar y trydydd dydd Llun yn y mis oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol."

**3.** Ar 21ain Mawrth 2006, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Ganllaw i awdurdodau tân ac achub ar Gynllunio Lleihau Risg - "Cymru Gwlad Fwy Diogel". Mae'r Canllaw yn datgan yn glir "yn dilyn ymgynghori, bydd angen i Awdurdodau Tân ac Achub ddatblygu, cymeradwyo a chyhoeddi eu Cynllun Lleihau Risg a'u cynlluniau gweithredu blynyddol erbyn 31ain Hydref" yn flynyddol. Mae'r Canllaw hefyd yn nodi fod rhaid i awdurdodau tân ac achub "ymgynghori'n eang a chaniatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer y broses o ymgynghori".

**Gwybodaeth**

**4.** Byddai anghenion y broses Cynllunio Lleihau Risg, fel a osodir yn y Canllaw, yn ei gwneud hi'n amhosib i'r Awdurdod fod mewn sefyllfa i gymeradwyo ei Gynllun a chynllun gweithredu yn ei gyfarfod ar y trydydd dydd Llun ym Medi o unrhyw flwyddyn, oni bai fod y Cynllun drafft wedi ei gymeradwyo at ddiben ymgynghoriad yng nghyfarfod mis Mawrth – mae hyn yn ymddangos braidd yn gynamserol gan na fyddai'r cynllun yn weithredol hyd y flwyddyn ganlynol. Yn hytrach na chynnal cyfarfod ychwanegol o'r Awdurdod yn ystod Hydref i'r diben o gymeradwyo'r Cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf, byddai'n haws os fyddai'r Awdurdod yn penderfynu newid diwrnod ei ail gyfarfod busnes ym mhob blwyddyn bwrdeistrefol i'r trydydd dydd Llun yn Hydref – defnyddiwyd y dull hwn gan yr Awdurdod yn 2006.

**5.** Gan, hyd a ragwelir, mai cymeradwyo ei Gynllun Lleihau Risg fydd y brif eitem fusnes ar agenda cyfarfod hydref yr Awdurdod yn y dyfodol, byddai felly'n ddoeth i'r Awdurdod ddiwygio ei Reolau Sefydlog er mwyn i gyfarfod yr hydref gael ei gynnal ym mis Hydref yn hytrach na Medi.

**6.** Drwy fabwysiadu'r ymagwedd hon ac ymatal rhag cynnal dau gyfarfod ar wahân ar fisoedd dilynol, byddai'r Awdurdod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd effeithlon. Byddai aildrefnu'r cyfarfod i'r trydydd dydd Llun yn Hydref hefyd yn rhoi amser digonol i'r Awdurdod i ymgorffori unrhyw newidiadau y mae'n penderfynu eu gwneud i'r Cynllun, ynddo cyn ei gyhoeddi erbyn y dyddiad cau statudol.

## Gwybodaeth Ychwanegol

**7.** O dan reol sefydlog 2(2), mae unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n cael eu cynnig a'u heilio yn cael eu gohirio hyd y cyfarfod nesaf. Felly, ni fydd y newid arfaethedig yn bwnc trafod neu bleidleisio hyd nes cyfarfod nesaf yr Awdurdod yn Mehefin 2007.

## Argymhelliad

**8.** Fod y newid canlynol i Reol Sefydlog 4(2) yn cael ei nodi (os y caiff ei gynnig a'i eilio)

"4(2) Cynhelir cyfarfodydd yr awdurdod ym Mehefin, sef Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod, a Hydref, Rhagfyr a Mawrth. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar y trydydd dydd Llun yn y mis oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol.".